Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

# Cynllun Busnes 2014-15
## Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

# Cynllun Busnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

2014-15

# Cynnwys


**Rhagarweiniad** 5

**Strategaeth Ddiwygio'r Weinyddiaeth Cyfiawnder** 7

**Ein nod a'n hamcanion strategol** 8

Adran 1: Cyflwyno'r Cefndir

1.1 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM: pwy ydyn ni 9
1.2 Cydraddoldeb ac amrywiaeth 9
1.3 Cefnogi barnwriaeth annibynnol i weinyddu cyfiawnder 9
1.3.1 Barnwriaeth y tribiwnlysoedd 10
1.3.2 Barnwriaeth y llysoedd sifil a theulu 10
1.3.3 Barnwriaeth Llys y Goron a'r ynadaeth 10
1.4 Datblygu ein staff 11
1.5 Gwybodaeth am arbedion 2014-15 12
1.6 Adnoddau 12

Adran 2: Blaenoriaethau busnes am 2014-15

2.1 Trosglwyddo i'n model gweithredu ar gyfer y dyfodol 14
2.1.1 Diwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM 14
2.2 Gwella profiad y defnyddiwr a lleihau costau 15
2.2.1 Rhoi sylw blaenllaw i anghenion y defnyddiwr wrth ddarparu a dylunio gwasanaethau 15
2.2.2 Defnyddio technoleg i wella profiad y defnyddiwr 16
2.2.3 Safoni gwasanaeth o ansawdd ar draws ein busnes 18
2.2.4 Arbedion cost ac effeithlonrwydd 18
2.3 Gweithio â'n partneriaid yn y system gyfiawnder i wella perfformiad 19
2.3.1 Tribiwnlysoedd 19
2.3.2 Sifil a theulu 20
2.3.3 Trosedd 21
2.4 Newidiadau i reolau gweithdrefn a deddfwriaethol 22
2.4.1 Diwygio tribiwnlysoedd 23
2.4.2 Un Llys Sifil ac Un Llys Teulu 23
2.4.3 Adolygiad Cyfiawnder Teuluol 23
2.4.4 Diwygio cyfiawnder sifil 24
2.4.5 Diwygio cyfiawnder troseddol 2
2.4.6 Cyfiawnder ieuenctid 25

Map Cynllun Busnes Lefel Uchel 26

# Rhagarweiniad

## gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd

Rydym yn falch o gyflwyno Cynllun Busnes 2014-15 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Ers ei sefydlu dair blynedd yn ôl, rydym ni a'n rhagflaenwyr wedi ymrwymo i sicrhau bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn darparu gwasanaeth cyhoeddus modern ac ymatebol, sy'n perfformio'n well ac yn fwy effeithlon ar draws pob agwedd ar weinyddu'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Rydym yn gwbl benderfynol o sicrhau bod gan bawb fynediad at gyfiawnder.

Mae llawer wedi cael ei wneud ond credwn y gallwn wneud llawer mwy eto. Rydym yn parhau i fyw mewn cyfnod anodd yn ariannol gyda chyfyngiadau sylweddol ar wariant yn y sector cyhoeddus. Er hynny, ac fel y dengys y cynllun hwn, gall Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM barhau i wella'r gwasanaeth y mae'n ei gynnig i'r cyhoedd.

Mae'r diwylliant o wella parhaus wedi'i sefydlu eisoes yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, gan ddarparu arbedion effeithlonrwydd a manteision clir i'n defnyddwyr. Bydd mwy o hynny yn 2014-15 a thu hwnt. Byddwn hefyd yn parhau i adeiladu ein perthnasoedd ac i weithio'n agos â sefydliadau eraill yn y sector cyfiawnder fel bo'n systemau a'n prosesau'n darparu gwasanaeth gwell i'r dyfodol.

Mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (y Gwasanaeth) y fantais aruthrol o fod â gweithlu ymroddedig, galluog a hyblyg. Mae eu perthynas â'r farnwriaeth, yn lleol ac ar lefel genedlaethol, yn gryf. Rydym yn ffyddiog y gall staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ateb yr her sydd o'n blaenau ac adeiladu ar eu henw da am arloesi a gwella. Mae hyn yn hollbwysig os ydym am gynnal gwasanaeth o safon.



Y Gwir Anrh. Chris Grayling AS
Yr Arglwydd Ganghellor
a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Y Gwir Anrh. Yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd
Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr

Y Gwir Anrh. Syr Jeremy Sullivan
Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd



# Rhagair

## gan Peter Handcock, Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

Rwyf yn falch o gyflwyno ein blaenoriaethau am y flwyddyn yn y cynllun busnes hwn.

Bwriadwn symud ymlaen drwy wneud gwelliannau sylweddol i'n gwasanaeth o ddydd i ddydd a thrwy ddiwygio gweinyddiaeth y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn sylweddol. Cyn i mi fyfyrio ar y prif weithgareddau yn y flwyddyn ariannol nesaf, hoffwn dalu teyrnged i'n staff ar draws yr asiantaeth am eu hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth y medrant ymfalchïo ynddo, ac y mae'r cyhoedd yn ei lawn haeddu. Ein staff yw ein cryfder, ac mae eu hymroddiad i barhau i wella arferion gwaith yn gwneud gwahaniaeth clir i'r cyhoedd ac i'n defnyddwyr.


Ym mis Mawrth 2014, cytunodd Drysorlys EM i fuddsoddi o'r newydd yn y system llysoedd a thribiwnlysoedd, ar gyfartaledd hyd at £75 miliwn bob blwyddyn dros bum mlynedd o 2015-16 ymlaen. Bydd yn golygu y gallwn weithredu rhaglen ddiwygio i sicrhau y gweinyddir ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn fwy effeithiol ac effeithlon, gan berfformio i safon uchel drwy ddefnyddio technoleg fodern, ystâd well a moderneiddio'r arferion gweithio presennol.

Mae'r buddsoddiad hwn ar ben y cyllid yr ydym eisoes wedi'i sicrhau i gychwyn trawsnewid y gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd a'n defnyddwyr. Un o'r prif flaenoriaethau yn 2014-15 fydd cynnal mwy o wrandawiadau digidol yn ein llysoedd troseddol. Bydd hyn yn gychwyn ar raglen waith helaeth y gobeithiwn ei chwblhau yn 2016, pan gynhelir gwrandawiadau mewn ffordd ddigidol fodern – gan ddefnyddio ffeiliau papur ond fel eithriad. Rydym hefyd yn uno'r wybodaeth am reoli achosion troseddol ar draws y System Cyfiawnder Troseddol (CJS): am y tro cyntaf, bydd gwybodaeth am achos troseddol yn cael ei chynhyrchu unwaith, yn lle'n cael ei hail-gofnodi a'i hailadrodd ar amryw o wahanol systemau gan nifer o asiantaethau.

Byddwn hefyd yn parhau gyda'r ymgyrch i ddefnyddio mwy o fideo yn 2014-15; yn y llysoedd troseddol ac eraill. Er enghraifft, byddwn yn gweithio â'r farnwriaeth i dreialu defnydd ehangach o dechnoleg cyswllt fideo mewn apeliadau a wrandewir gan Siambr Apeliadau Mewnfudo'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn y gwanwyn 2014.

Bydd lansio'r Un Llys Sirol yn rhoi cyfle i ganoli prosesau sifil, gan felly leihau costau a sicrhau y gallwn ganolbwyntio ein hadnoddau gwerthfawr ar gefnogi'r farnwriaeth i redeg gwrandawiadau llys. Yn yr un modd, bydd cael Un Llys Teulu yn symleiddio a gwella'r system llysoedd teulu'n sylweddol i ddefnyddwyr. Bydd yn cyflwyno prosesau rheoli achosion symlach a gwell ac yn cryfhau arweinyddiaeth farnwrol ymhellach.

Bydd y gwaith hwn i gyd yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'r farnwriaeth. Mae ein hatebolrwydd fel asiantaeth nid yn unig i'r Ysgrifennydd Gwladol, ond hefyd i'r Arglwydd Brif Ustus a'r Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd, yn golygu bod ein perthynas â'n partneriaid barnwrol yn gwbl greiddiol i'n llwyddiant, yn lleol a strategol. Rydym yn gweithio'n agos iawn â'r farnwriaeth ar bob lefel, o'r gwaith dydd i ddydd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd a weinyddir gennym, i'n trafodaethau ar lefel Bwrdd. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y bartneriaeth honno, i sicrhau llwyddiant y diwygiadau fydd yn gwella gymaint ar ein gwasanaeth a'r profiad i ddefnyddwyr.



Peter Handcock CBE
Prif Weithredwr, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

# Strategaeth Ddiwygio'r Weinyddiaeth Cyfiawnder

Fel un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, diffinnir cyfeiriad strategol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM gan weledigaeth strategol yr adran ar gyfer diwygio, sef creu system gyfiawnder fwy effeithiol, llai costus a mwy ymatebol i'r cyhoedd.

I ddarparu hyn mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn newid rhai o'r pethau a wneir ganddi, a'r ffordd y mae'n eu gwneud. Mae'r cam presennol yn ei rhaglen ddiwygio'n canolbwyntio ar bum blaenoriaeth:

**Trawsnewid adsefydlu:** gyrru cyfraddau aildroseddu i lawr a gwella gwerth i'r trethdalwr drwy agor y drws i farchnad fwy amrywiol o ddarparwyr o ran darparu gwasanaethau adsefydlu; ehangu ein dull adsefydlu i droseddwyr a ddedfrydir am hyd at 12 mis; a thalu'n seiliedig ar ganlyniadau.

**Gwarchod y cyhoedd a chosbi troseddwyr fel rhan o system garcharu fwy effeithiol a chost-effeithlon:** Diwygio'r system garchardai er mwyn lleihau costau ar draws yr ystâd a gwneud i bob ceiniog o arian cyhoeddus gyfrif. Sicrhau bod y fframwaith dedfrydu'n gweithio mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, darparu cosbau priodol i droseddwyr a heb gyfaddawdu ar ddiogelwch y cyhoedd.

**Trawsnewid carcharu pobl ifanc:** Diwygio carcharu pobl ifanc i greu system fwy effeithlon sy'n sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cosbi'n briodol, ac ar yr un pryd yn derbyn y cymorth a'r addysg sydd ei angen arnynt i ymwrthod â throseddu.

**Trawsnewid ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd a'r System Cyfiawnder Troseddol:** Parhau i wella'r ffordd y mae'r llysoedd yn cael eu rhedeg gan sicrhau y rheolir achosion cystal ag y gellir eu rheoli a bod dioddefwyr yn dod gyntaf yn y system.

**Trawsnewid cymorth cyfreithiol:** Diwygio'r system cymorth cyfreithiol i leihau'r gost i'r trethdalwr a sicrhau bod gan y cyhoedd ffydd yn y system.

# Ein nod a'n hamcanion strategol

Mae'r Ddogfen Fframwaith, sy'n nodi'r cytundeb a gyrhaeddwyd rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd ar gyfer rhedeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, yn cyflwyno ein nod a'r pum prif amcan strategol ar gyfer yr asiantaeth.

## Ein nod:

Rhedeg system llysoedd a thribiwnlysoedd effeithiol ac effeithlon, y cynhelir rheol y gyfraith drwyddi ac sy'n darparu mynediad at gyfiawnder i bawb.

## Ein hamcanion:

Darparu'r weinyddiaeth i gefnogi system llysoedd a thribiwnlysoedd deg, effeithlon a hygyrch;

Cefnogi barnwriaeth annibynnol i weinyddu cyfiawnder;

Ysgogi gwelliannau perfformiad ac effeithlonrwydd parhaus ar draws pob agwedd ar weinyddu'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd;

Cydweithredu'n effeithiol ag asiantaethau a chyrff cyfiawnder eraill, gan gynnwys y proffesiynau cyfreithiol, i wella mynediad at gyfiawnder; a

Gweithio ag adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth, fel y bo'n briodol, i wella ansawdd a phrydlondeb eu penderfyniadau er mwyn lleihau nifer yr achosion sy'n dod gerbron y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

# Adran 1

# Cyflwyno'r Cefndir

## 1.1 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM: pwy ydyn ni

Mae'r cynllun hwn yn nodi blaenoriaethau busnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a sut y byddwn yn eu cyflawni am y flwyddyn 2014-15.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac fe'i sefydlwyd ar 1 Ebrill 2011. Mae'n gweithredu ar sail partneriaeth rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.

Darparwn system sy'n cefnogi'r gwaith o weinyddu busnes y llysoedd yng Nghymru a Lloegr ynghyd â'r tribiwnlysoedd hynny y mae'r Arglwydd Ganghellor yn gyfrifol amdanynt ar draws Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn chwarae rôl sylfaenol gyda darparu gweledigaeth ac amcanion ehangach y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Rydym ar flaen yr agenda Trawsnewid Cyfiawnder ac wrth ddarparu blaenoriaethau allweddol yr adran, yn enwedig effeithlonrwydd ar draws y CJS ehangach; ac wrth ddarparu gwasanaethau rheng flaen sy'n dryloyw, ac yn atebol, am gost is.

Fel a welir yn Adroddiad Blynyddol 2013-14, mae'r blaenoriaethau yng Nghynllun Busnes 2013-14 fwy neu lai wedi eu cwrdd bellach. Mae'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau yn y cynllun pum mlynedd (2011-15) hefyd wedi eu cwrdd. Felly, mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bwriadwn barhau i drawsnewid ein gwasanaethau yn 2014-15.

## 1.2 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi'i rwymo gan y gofynion statudol yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn y ffordd y dyluniwn ac y darparwn ein gwasanaethau ac fel cyflogwr. Dangoswn ein hymrwymiad i hyn drwy'r hyfforddiant gorfodol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a gyflawnir gan ein staff bob blwyddyn a thrwy wrando ac ymateb i anghenion ein hamrywiol ddefnyddwyr.

## 1.3 Cefnogi barnwriaeth annibynnol i weinyddu cyfiawnder

Un o amcanion craidd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (y Gwasanaeth) yw rhoi cymorth annibynnol i'r farnwriaeth gyda gweinyddu cyfiawnder. Mae gennym aelodau o'r farnwriaeth sy'n eistedd ar Fwrdd yr Asiantaeth, ac ar bob lefel ym mhob un o'n meysydd busnes. Mae'r berthynas rhwng Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'r farnwriaeth yn well nag y bu erioed, gyda lefel uchel o ymgynghori, gweithio'n agos

a chydweithredu. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i ddatblygu ac adeiladu ar y berthynas hon ym mhob un o'n meysydd gwaith.

Yn 2014-15, byddwn yn gwella'r gwasanaethau digidol a ddarperir i'r farnwriaeth i sicrhau bod ganddynt y meddalwedd a'r caledwedd modern i wneud eu gwaith a chefnogi gweithio'n ddigidol yn y ffordd fwyaf effeithiol. Yn 2014 byddwn yn defnyddio 'e-Judiciary' (pecyn o wasanaethau ac offer cymorth TG i'r farnwriaeth) o un pwynt gwasanaeth i hwyluso gweithio'n fwy hyblyg. Bydd hyn yn lleihau costau a gwella effeithlonrwydd ac yn rhoi'r fantais ychwanegol o ddefnyddio llai o bapur ar draws proses y llys.

### 1.3.1 Barnwriaeth y tribiwnlysoedd

Yn 2014-15, byddwn yn gweithio â barnwriaeth y tribiwnlysoedd i gysoni ffiniau barnwrol y tribiwnlysoedd â strwythurau rhanbarthol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Yn benodol, byddwn yn gweithredu cynlluniau i gysoni ffiniau barnwrol y rhanbarthau Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant (SSCS) â strwythurau rhanbarthol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, i roi manteision gweithredol a strategol yn y dyfodol. Ym maes Anghenion Addysgol Arbennig, byddwn yn gweithio â'r farnwriaeth a defnyddwyr i adolygu effaith cynllun peilot sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd gyda chyfansoddiad paneli tribiwnlys.

Ar ôl i'r Llywyddion presennol ymddeol, byddwn yn croesawu Llywyddion newydd y Siambr Hawliau Cymdeithasol a'r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Cymru a Lloegr) ac yn parhau'r berthynas effeithiol sydd gennym gyda'r dalwyr swyddi barnwrol pwysig hyn.

### 1.3.2 Barnwriaeth y llysoedd sifil a theulu

Ym mis Ebrill buom yn gweithio â'r farnwriaeth i sefydlu un Llys Sirol ac un Llys Teulu. Bydd yr Awdurdodau Busnes Sifil a Theulu'n parhau i ddarparu'r llywodraethu a'r sicrwydd sydd ei angen i weithredu'r newidiadau strwythurol pwysig hyn a sicrhau eu bod yn cael eu gwreiddio'n briodol drwy gydol 2014-15.

Bydd yr Awdurdod Busnes Teulu'n sicrhau bod y farnwriaeth a'r ochr weinyddol, drwy berthynas weithio agos, yn gweithredu argymhellion yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol a gwelliannau cysylltiedig eraill i'r system llysoedd teulu.

Yn yr un modd, bydd yr Awdurdod Busnes Sifil yn sicrhau bod gwella perfformiad ynghyd â newidiadau gweithdrefn a phroses a moderneiddio systemau'n parhau i gael eu gyrru mewn partneriaeth â'r farnwriaeth.

Rydym hefyd yn rhoi cymorth i'r farnwriaeth ar weithredu diwygiadau cyfiawnder sifil, er enghraifft cyllidebu costau, yn codi o ddiwygiadau cost Jackson.

### 1.3.3 Barnwriaeth Llys y Goron a'r ynadaeth

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi gweithio â'r farnwriaeth i leihau gwrandawiadau llys diangen a chefnogi'r ymgyrch ar draws y CJS i leihau biwrocratiaeth. Yn 2014-15 byddwn yn adeiladu ar y llwyddiant hwn gan feddwl ehangu arno drwy gefnogi rhaglen Rheoli Achosion yr Uwch Farnwr Llywyddol sydd i'w gweithredu ar draws Llys y Goron. Daw'r rhaglen â holl asiantaethau'r CJS at ei gilydd, gan hefyd ymgysylltu â'r gymuned amddiffyn. Mae'r rhaglen yn pwysleisio bod angen i'r holl bartïon yn y CJS wneud eu rhan gyda helpu'r barnwr i sicrhau y rheolir achosion yn llwyddiannus. Mae'r Uwch Farnwr Llywyddol wedi nodi beth y

disgwylir i asiantaethau'r CJS, gan gynnwys Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, ei wneud o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd yn cefnogi'r Uwch Farnwr Llywyddol i weithredu argymhellion yr Adolygiad Datgelu, oedd wedi'i arwain gan Ei Anrhydedd y Barnwr Kinch a'r Uwch Farnwr Rhanbarth (Prif Ynad). Mae hyn yn ceisio gwella'r modd y rhestrir gwrandawiadau cyntaf a'r ffordd yr ymdrinnir â materion datgelu mewn llysoedd ynadon, gan wneud gwrandawiadau'n fwy effeithiol.

Byddwn yn parhau i weithio â'r farnwriaeth i gefnogi arweinyddiaeth effeithiol a rheolaeth effeithiol o fusnes barnwrol mewn llysoedd ynadon. Yn 2014-15, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cefnogi gweithredu penderfyniadau Gweithgor Llywodraethu'r Uwch Farnwr Llywyddol drwy greu Grwpiau Busnes Barnwrol lleol newydd.

## 1.4 Datblygu ein staff

Byddwn yn parhau i adeiladu ar ganlyniadau Arolwg Ymgysylltu â Staff 2013-14 sy'n dangos gwelliant pellach o 5% (i fyny 4% yn 2012-13) o ran dysgu sy'n gwella perfformiad a datblygiad gyrfa. Gwnawn hyn drwy roi cynnig syml a chlir i bobl, gyda chyrsiau hwylus a hygyrch, fydd yn parhau i wella gallu busnes y Gwasanaeth ac yn datblygu arweinwyr i ddiwallu ein hanghenion yn y dyfodol.

Bydd ein cynnig dysgu a datblygu symlach yn nodi'n glir pa safon fydd yn ofynnol ar gyfer pob graddfa, a'r cyrsiau fydd yn helpu staff i'w chyrraedd. Byddwn yn parhau i ddarparu ein hyfforddiant sgiliau busnes, yn defnyddio ein dulliau e-ddysgu ac wyneb yn wyneb, drwy tua 940 o staff sy'n Hyfforddwyr Sgiliau Busnes achrededig o Ansawdd Sicr. Bydd ein staff i gyd yn parhau i gwblhau'r hyfforddiant statudol neu orfodol sy'n berthnasol i'w rôl.

Bydd Cynllun Galluogrwydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, ochr yn ochr â Chynllluniau Galluogrwydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Diwygio'r Gwasanaeth Sifil, yn rhoi blaenoriaeth i ddau faes datblygu allweddol yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Bydd 'Craffter Busnes' ac 'Arwain a Rheoli Newid' yn cael eu lansio ym mis Mai 2014, ar draws ein tair lefel o alluogrwydd:

1. Newydd i alluogrwydd neu ymwybyddiaeth gyffredinol (Band C-F)
2. Uwch arweinwyr neu wybodaeth waith (Band B – SCS) a
3. Lefel arbenigol (Band B – SCS).

Byddwn yn hyrwyddo cymwysterau perthnasol sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol i staff ar bob graddfa. Bydd ein darpariaeth yn cynnwys achrediad i'r sgiliau busnes a ddysgir gan dywyswyr a chlercod llys, rhaglen lawn o Brentisiaethau gan gynnwys Llysoedd Generig, Tribiwnlysoedd ac Erlyn a'r Proffesiwn Cyflawni Gweithredol. Gan barhau i ychwanegu at y 550 o brentisiaid cymwysedig yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, byddwn yn cyflwyno ein rhaglenni datblygu busnes-benodol i Fandiau E ac F a'n rhaglenni datblygu arweinyddiaeth i Fandiau D, B ac A i 450 o staff eraill yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Hon fydd trydedd flwyddyn y cynllun Arweinwyr y Dyfodol Cenedlaethol sy'n adnabod ac 'arfogi' staff talentog ac ymroddedig i gael eu penodi i swyddi uwch-arweinwyr. Ar hyn o bryd mae 15 o staff yn cymryd rhan yn y cynllun, sy'n gofyn am

gyfuniad o greadigrwydd a gwybodaeth fusnes i wella ein gwasanaeth yn barhaus. Mae eu gwaith wedi rhagweld arbedion o dros £2.8 miliwn.

Yn ystod 2014-15, byddwn yn parhau i wreiddio'r system rheoli perfformiad newydd a Ffordd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM; sef parhau i greu diwylliant o berfformiad uchel a chadw ein ffocws ar gwsmeriaid. Byddwn yn sicrhau y rhoddir amser priodol i nodi anghenion datblygu ein staff a bod o leiaf pum diwrnod y flwyddyn yn cael ei dreulio ar eu datblygiad.

## 1.5 Gwybodaeth am arbedion 2014-15

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod ar y trywydd iawn i wneud mwy na'r £300 miliwn o arbedion angenrheidiol dros y pedair blynedd hyd at ddiwedd 2014-15.

Mae gwaith yn parhau ar gynhyrchu'r ffigurau adnoddau a chyfalaf terfynol a faint o arbedion sy'n debygol o fod eu hangen fel bo'r sefydliad yn cadw at ei gyllideb.

## 1.6 Adnoddau

Mae ein hamcanion strategol yn ein helpu i flaenoriaethu sut y gwariwn ein cyllideb adnoddau. Dengys Tabl 1 ddosbarthiad y dyraniad fel a gynlluniwyd ar draws rhanbarthau, ar sail eu llwythi gwaith disgwyliedig yn Nhabl 2. Yn ystod y flwyddyn caiff y llwythi gwaith gwirioneddol eu monitro'n erbyn y rhagolygon a gallai adnoddau gael eu hail-ddyrannu i gwrdd â phwysau sy'n codi o ganlyniad i amrywiadau yn y llwythi gwaith disgwyliedig.

**Tabl 1 – Dosbarthiad y dyraniad fel a gynlluniwyd ar draws rhanbarthau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM**

| | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|
| **Gwariant Crynswth** | £m | £m |
| Rhanbarth Llundain | 250 | 265.9 |
| Rhanbarth De Ddwyrain Lloegr | 114.2 | 117.0 |
| Rhanbarth De Orllewin Lloegr | 65.8 | 65.75 |
| Cymru | 57.0 | 54.3 |
| Rhanbarth Canolbarth Lloegr | 129.2 | 124.45 |
| Rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr | 108.1 | 108.7 |
| Rhanbarth Gogledd Ddwyrain Lloegr | 105.8 | 106.2 |
| Tribiwnlysoedd yr Alban | 26.2 | 23.1 |
| Rheng flaen ganolog | 299.8 | 321.9 |
| Ystadau canolog | 246.2 | 241.15 |
| Pencadlys | 231.7 | 288.94 |
| **Incwm** | **(565)** | **(731.6)** |
| **Cyfanswm y gwariant net** | **1069** | **985.79** |

**Tabl 2 – Llwythi gwaith, adnoddau a dangosyddion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar gyfer 2014-15** Llwythi gwaith disgwyliedig ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd, dangosyddion mewnbwn ac effaith

| Llwythi gwaith disgwyliedig | Dangosyddion mewnbwn | Dangosyddion effaith |
|---|---|---|
| **Llys y Goron** | | |
| Derbyniadau – Pob achos: 136,501<br>O'r rhain:<br>Achosion treial: 94,974 | • Costau staff a barnwrol am bob diwrnod eisteddiad | • Nifer yr wythnosau y mae'n ei gymryd, ar gyfartaledd, i gychwyn[1] achosion treial ar ôl eu derbyn yn Llys y Goron |
| **Llys Ynadon** | | |
| Achosion a gwblhawyd: 1,412,670<br>O'r rhain:<br>Ditiadwy: 335,348<br>Crynodeb 1,077,322 | • Costau staff a barnwrol am bob diwrnod eisteddiad | • Nifer yr wythnosau y mae'n ei gymryd, ar gyfartaledd, i gwblhau'r[2] holl achosion ar ôl eu rhestru gyntaf<br>• Nifer y diwrnodau gwaith y mae'n ei gymryd, ar gyfartaledd, i'r canlyniad gael ei nodi ar gofrestr y llys<br>Ar gyfer cosbau ariannol:<br>1. Faint o arian parod a gasglwyd<br>2. Ôl-ddyledion heb eu casglu<br>3. % o gyfrifon wedi eu cau neu'n cydymffurfio â thelerau talu o fewn 12 mis i'r mis y rhoddir y gosb. |
| **Tribiwnlysoedd** | | |
| Derbyniadau – pob tribiwnlys: 837,248<br>O'r rhain:<br>Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant (awdurdodaeth Siambr Hawliau Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen Gyntaf): 516,949<br>Cyflogaeth: 150,300<br>Mewnfudo a Lloches:<br>(Haen Gyntaf ac Uchaf) 93,284<br>Iechyd Meddwl: 37,321<br>Eraill: 39,394 | • Cost tribiwnlysoedd (barnwrol a gweinyddol)<br>• Cyfanswm cost tribiwnlysoedd | • Nifer yr wythnosau y mae'n ei gymryd, ar gyfartaledd, i gwblhau achosion ar draws pob un o'r pedair awdurdodaeth fwyaf:<br>• Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant (awdurdodaeth Siambr Hawliau Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen Gyntaf)<br>• Cyflogaeth<br>• Mewnfudo a Lloches<br>• Iechyd Meddwl |
| **Cyfiawnder Sifil a Theulu** | | |
| Llysoedd Sifil<br>Pob achos: 1,497,343<br>Hawliadau arian: 1,100,885<br>Adfeddiannu: 244,309<br>Eraill sifil: 125,587<br>Ansolfedd: 26,562 | • Costau staff a barnwrol am bob diwrnod eisteddiad | • Sifil – Nifer yr wythnosau y mae'n ei gymryd, ar gyfartaledd, i wrando achosion o dderbyn yr hawliad yn y llys |
| Llysoedd Teulu<br>Derbyniadau – Pob achos 212,341<br>O'r rhain:<br>Mabwysiadu: 14,244<br>Cyfraith Gyhoeddus: 17,000<br>Cyfraith Breifat: 37,699 – 55,001<br>Deddf Cyfraith Teulu: 18,128 – 22,536<br>Ysgariad: 114,415 | | Teulu[3]– Nifer yr wythnosau y mae'n ei gymryd, ar gyfartaledd, i sicrhau canlyniad terfynol i'r plentyn mewn achosion gofal a goruchwyliaeth |

[1] Mae achos yn cychwyn ar ddechrau'r prif wrandawiad yn Llys y Goron. Prif wrandawiad yw un lle mae'r diffynnydd yn pledio i'r holl gyhuddiadau a'r rheithgor yn tyngu llw.

[2] Mae achosion yn cael eu cwblhau yn y llys ynadon naill ai pan roddir dedfryd neu pan drosglwyddir hwynt i Lys y Goron.

[3] Mae'r mesurau hyn, ynghyd â mesurau gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS), yn rhan o fframwaith mesur traws-system.

# Adran 2

# Blaenoriaethau Busnes am 2014-15

**Ein blaenoriaethau ar gyfer 2014-15:**

**Trosglwyddo i'n model gweithredu ar gyfer y dyfodol**

**Gwella profiad y defnyddiwr a lleihau costau**

**Gweithio â'n partneriaid yn y system gyfiawnder i wella perfformiad**

**Newidiadau i reolau gweithdrefn a deddfwriaethol**

## 2.1 Trosglwyddo i'n model gweithredu ar gyfer y dyfodol

### 2.1.1 Diwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

Mae'r cyhoedd yn dibynnu ar ein system gyfiawnder i orfodi eu hawliau, darparu mynediad prydlon at gyfiawnder, cefnogi menter a chynnal rheol y gyfraith. Mae'r llysoedd yn gangen sylfaenol ar goeden y wlad ac yn wasanaeth cyhoeddus allweddol. P'un ai fel dioddefwr neu dyst i drosedd, defnyddiwr mewn dyled, busnes sy'n rhan o anghydfod masnachol neu fel unigolyn sy'n disgwyl unioni – maent i gyd yn disgwyl i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd ddarparu mynediad prydlon a dibynadwy at gyfiawnder. Dyma galon ein system gyfiawnder a rhan annatod o'n gwasanaethau cyhoeddus.

Fodd bynnag, mae angen diwygio'r ochr weinyddol a'r seilwaith sy'n ei gefnogi i ddarparu dyfodol hirdymor a chynaliadwy i wasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd ac i sicrhau ein bod yn parhau i gwrdd â disgwyliadau ein defnyddwyr.

Yn 2013 cafwyd Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn cyhoeddi ei fod yn ystyried cynigion i ddiwygio adnoddau a gweinyddiaeth y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Ym mis Mawrth 2014, cytunodd Drysorlys EM ar fuddsoddiad newydd o hyd at £75 miliwn bob blwyddyn, ar gyfartaledd, dros bum mlynedd o 2015-16 ymlaen. Bydd yn golygu y gallwn weithredu rhaglen ddiwygio i sicrhau y gweinyddir ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn fwy effeithiol ac effeithlon, gan berfformio i safon uchel drwy ddefnyddio technoleg fodern, ystâd well a moderneiddio'r arferion gweithio presennol.

Mae'r cyllid i wneud y gwaith hwn wedi'i sicrhau o flwyddyn ariannol 2015-16 ymlaen ac mae ar ben y cyllid a ddaeth eisoes gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer rhaglenni Llwyfan Cyffredin a TG y CJS ac i gefnogi'r gwaith o uwchraddio'r ystâd.

Bydd y rhaglen ddiwygio hon yn rhoi seilwaith cynaliadwy a dibynadwy i gefnogi'r gwaith o weinyddu cyfiawnder yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen at ddarparu gweinyddiaeth fwy effeithlon, sy'n perfformio ar ei gorau ar gyfer y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, sy'n diwallu anghenion y cyhoedd a hefyd yn cynnig manteision sylweddol i'r trethdalwr a'r proffesiwn cyfreithiol.

## 2.2 Gwella profiad y defnyddiwr a lleihau costau

### 2.2.1 Rhoi sylw blaenllaw i anghenion y defnyddiwr wrth ddarparu a dylunio gwasanaethau

#### 2.2.1.1 Gwella ein gwasanaeth i ddefnyddwyr

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn rhoi'r defnyddiwr wrth galon dylunio a darparu gwasanaeth ym mhob maes o fewn ein sefydliad. Mae'r gwelliannau wedi cynnwys rhannu enghreifftiau o ymarfer gorau wrth ddarparu gwasanaeth i ddefnyddwyr er mwyn dathlu llwyddiannau a rhoi rhaglenni yn eu lle i wella ansawdd trin cwynion a gohebiaeth gyda'r nod o leihau nifer y cwynion yr ymdrinnir â hwynt yn y cam apêl. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i leihau nifer yr ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaethau Iechyd. Yn 2014-15 byddwn hefyd yn gwerthuso faint o daliadau ex-gratia a wnaed o ganlyniad i gamweinyddu gan y Gwasanaeth.

#### 2.2.1.2 Gwelliant Parhaus / Lean

Mae prif ffocws Gwelliant Parhaus ar ddarparu gwasanaeth effeithlon a mwy effeithiol gan ddileu ymddygiad a phrosesau gwastraffus. Ar lefel strategol rydym yn ymrwymedig i wella ein proses 'o'r dechrau i'r diwedd' a safoni ansawdd y gwasanaeth a gynigiwn, sy'n golygu dylunio sut y bydd yn edrych yn y dyfodol er mwyn darparu gwasanaeth yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol bosibl. Ar lefel weithredol, byddwn yn defnyddio tystiolaeth ac adborth o ymweliadau 'Ewch i weld' cenedlaethol i barhau i wella'r gwerth a gynigir i'r defnyddiwr drwy leihau gwastraff, defnyddio gwybodaeth am berfformiad i sicrhau gwelliannau a thrwy ddatblygu gallu ein harweinwyr a'n staff i gymhwyso'r fethodoleg a'r meddwl am Welliant Parhaus.

#### 2.2.1.3 Gwella profiad y defnyddiwr o dribiwnlysoedd

Yn 2014-15 bydd y Gwasanaeth yn gwreiddio diwygiadau diweddar ar draws yr awdurdodaethau cyflogaeth, gan roi ffocws clir ar barhau i wella ein systemau, prosesau a'n canllawiau. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld newid sylweddol, gan gynnwys cyflwyno codi ffioedd a rheolau gweithdrefn newydd. Yn Ebrill 2014, cafodd Gymodi Cynnar drwy'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) ei weithredu ar gyfer pob anghydfod yn y gweithle. Dros y flwyddyn i ddod byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Adran Fusnes, Arloesi a Sgiliau (BIS); ACAS a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, i sicrhau y gwneir y mwyaf o'r manteision diwygio i ddefnyddwyr tribiwnlys.

#### 2.2.1.4 Gwybodaeth am reoli sifil a pherfformiad sifil

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwybodaeth am reoli sifil i nodi meysydd lle mae angen gwella perfformiad ac fel y gallwn ddadansoddi tueddiadau a datblygiadau'n fwy soffistigedig o fewn yr awdurdodaeth. Drwy wneud hyn gallwn ddyrannu adnoddau gweinyddol yn effeithiol a gweithio â'r farnwriaeth i sicrhau dosbarthiad priodol o ddiwrnodau eisteddiad.

## 2.2.2 Defnyddio technoleg i wella profiad y defnyddiwr

### 2.2.2.1 Gwella profiad defnyddwyr tribiwnlys

Byddwn yn adeiladu ar y dull digidol newydd ar gyfer defnyddwyr y tribiwnlys cyflogaeth, sy'n helpu pobl i gychwyn hawliad a thalu ffioedd ar-lein, drwy wrando ar adborth gan ddefnyddwyr i wneud gwelliannau a gwneud y broses ddigidol yn esiampl i'w dilyn ar draws llywodraeth.

Byddwn yn gweithio â defnyddwyr i wella'r ffurflen Mewnfudo a Lloches ddigidol ar-lein, a'r system dalu, i annog mwy o apelyddion a'u cynrychiolwyr i'w defnyddio o'r gwanwyn 2014 ymlaen.

Bydd y Gwasanaeth yn gweithio â'r farnwriaeth i dreialu defnydd ehangach o gyswllt fideo mewn gwrandawiadau gan Siambr Apeliadau Mewnfudo'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn y gwanwyn 2014.

### 2.2.2.2 Digidoleiddio swyddogaethau gweinyddol sifil a theulu

Ym mis Gorffennaf 2014 byddwn yn cyflwyno system trosglwyddo swmp newydd a diogel fydd yn welliant sylweddol i'n defnyddwyr swmp sifil. Bydd yn golygu y gall defnyddwyr swmp canolig a mawr gychwyn hawliadau sifil yn ddigidol drwy ddefnyddio proses trosglwyddo data cyflym a diogel, i dracio cynnydd eu hawliadau ar-lein gan greu arbedion i ddefnyddwyr ac i'r Gwasanaeth.

O fis Gorffennaf 2014 ymlaen, byddwn yn ehangu gwasanaeth peilot o dalu drwy gyfrif, sy'n golygu bod defnyddwyr busnes swmp yn gallu talu ffioedd llys yn electronig wrth gychwyn hawliad mewn unrhyw lys neu ganolfan fusnes. Bydd y gwasanaeth hwn yn lleihau gorbenion i ddefnyddwyr ac i'r Gwasanaeth drwy ddileu'r gost o gyfrifyddu a thalu gyda siec. Bydd hefyd yn golygu y gellir gwneud ad-daliad yn syth i gyfrif y defnyddiwr.

Byddwn hefyd yn gweithio â'n cydweithwyr yn Is-adran Gwasanaethau Digidol y Weinyddiaeth Cyfiawnder i nodi sut y gallwn wella'r gwasanaeth a ddarperir gan ein systemau hawliadau sifil digidol presennol (Hawliadau Meddiant Ar-lein a Hawliadau Arian Ar-lein) fel bod mwy o'n busnes hawliadau sifil yn cael ei gychwyn yn ddigidol.

Yn 2014-15 byddwn yn gweld a allwn ddigidoleiddio'r broses ysgaru a hefyd yn ystyried, gyda'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS), y potensial i rannu mwy ar dechnoleg. Byddwn hefyd yn parhau i gynnal a chefnogi ceisiadau rheoli achosion presennol yn y gwasanaeth sifil, teulu a thribiwnlysoedd.

### 2.2.2.3 Digidoleiddio swyddogaethau gweinyddol y llysoedd troseddol

Un o'r prif flaenoriaethau i'r Gwasanaeth yn 2014-15 fydd cynnal mwy o wrandawiadau digidol yn ein llysoedd troseddol. Ar ôl treialu ystod o atebion technolegol yn llwyddiannus mewn llysoedd peilot yn yr ardaloedd a ddewisodd fabwysiadu'n fuan, bwriadwn gyflwyno ffeiliau achos digidol a chyflwyno tystiolaeth yn ddigidol mewn llysoedd troseddol ar draws y wlad. Bydd hyn yn gychwyn ar raglen newid a gweithredu busnes helaeth y gobeithiwn ei chwblhau yn 2016, pan gynhelir gwrandawiadau llys mewn ffordd ddigidol fodern – ac yn defnyddio ffeiliau papur ond fel eithriad.

### 2.2.2.4 Rheoli achosion troseddol unedig ar draws y CJS

Rydym hefyd, fel rhan o ddigidoleiddio'r llysoedd troseddol (uchod), yn uno gwybodaeth rheoli achosion troseddol ar draws y CJS. Bydd hyn yn rhoi mynediad amser real at ffeiliau achos digidol. Am y tro cyntaf, bydd gwybodaeth am achos troseddol yn cael ei chynhyrchu unwaith, yn lle'n cael ei hail-gofnodi a'i hailadrodd ar amryw o wahanol systemau gan nifer o asiantaethau. Bydd pob asiantaeth a pharti'n gallu cael mynediad i'r un system hon, ac yn gallu diweddaru'r un data gan ddibynnu ar eu proffil diogelwch a hawliau mynediad cysylltiedig. Felly, bydd asiantaethau unigol o fewn y CJS, a'r farnwriaeth, yn gallu newid y ffordd y maent yn gweithio i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol gan ddarparu gwasanaeth gwell i ddiffynyddion, tystion a dioddefwyr troseddau, a hefyd i gymdeithas a threthdalwyr.

Bydd y darn gwaith hwn hefyd yn angori'r newidiadau deddfwriaethol a ddaeth yn sgîl y Bil Llysoedd a Dedfrydu. Mae hyn yn cynnwys cynnig i ddileu dros 800,000 o achosion 'rheoleiddio' lefel isel o ystafell draddodiadol y llys ynadon, lle mae'r diffynnydd naill ai wedi pledio'n euog neu heb bledio o gwbl. Bydd ynad yn dal i ddelio â'r achosion hyn, ond bydd wedi'i gefnogi neu ei chefnogi gan brosesau TG a gweinyddol newydd a mwy cymesur.

### 2.2.2.5 Rota ar gyfer ynadon

Bydd system rota newydd, genedlaethol i ynadon yn disodli'r amrywiol systemau 'llaw' a TG eraill a ddefnyddir ar hyn o bryd i drefnu eisteddiadau ynadon. Bydd y prosiect yn darparu un broses fusnes hyblyg, wedi'i galluogi gan system TG ar-lein yn 2014. Bydd hyn yn gwella'r broses o greu rota; yn gwella'r gwaith o reoli eisteddiadau, yn rhoi mwy o hyder yn y broses; yn golygu y bydd ynadon yn gallu diweddaru a chynnal eu hargaeledd ar gyfer eisteddiadau a gweld eu heisteddiadau ar-lein; ac yn rhoi mynediad at ddata rota hanesyddol.

### 2.2.2.6 Cyswllt fideo

Ffactor bwysig sy'n cyfrannu at agenda Trawsnewid Cyfiawnder y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw'r ymgyrch i ddefnyddio mwy o fideo ar draws y CJS yn 2014-15. Byddwn yn parhau i ddefnyddio mwy ar gyswllt fideo rhwng y carchar a'r llys fel nad oes raid i ddiffynyddion symud i mewn ac allan o'r carchar gymaint. Byddwn yn parhau i'w gwneud yn haws i dystion, gan gynnwys tystion arbenigol a swyddogion heddlu, roi tystiolaeth drwy gyswllt fideo. Byddwn yn adolygu cynnydd hyn erbyn haf 2014, gan gynnwys profi gwasanaethau fideo ar y we.

### 2.2.2.7 Rheithwyr

Drwy gydol 2014-15, byddwn yn gwella'r gwaith o reoli a defnyddio rheithwyr drwy brosesau busnes gwell. I gefnogi hyn, byddwn yn ystyried y potensial i ddigidoleiddio'r broses wysio gyda'r nod o ddatblygu proses fwy atebol a llai seiliedig ar bapur i wysio rheithwyr.

### 2.2.2.8 Swmp-argraffu

Ar ôl cyflwyno swmp-argraffu'n llwyddiannus yn 2012-13 yn yr awdurdodaeth sifil a theulu, byddwn yn defnyddio mwy arno yn 2014 gan wyro mwy o waith papur y llysoedd sirol i'w swmp-argraffu a lleihau costau. Ein nod yw defnyddio mwy o eitemau swmp-argraffu ym Medi 2014. Yn yr un modd, yn 2014-15 byddwn yn ystyried datrysiad swmp-argraffu i'r llysoedd ynadon er mwyn lleihau costau a chynyddu digidoleiddio.

### 2.2.3 Safoni gwasanaeth o ansawdd ar draws ein busnes

#### 2.2.3.1 Canolfannau Busnes Cenedlaethol

Mae creu Canolfannau Busnes y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi arwain at welliannau sylweddol i ddefnyddwyr o ran sut maent yn cael mynediad at ein gwasanaethau. Eleni byddwn yn cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigiwn drwy'r canolfannau busnes canolog, gan gynnwys creu'r Gwasanaeth Cyfryngu Cenedlaethol (Hawliadau Bychain). Am y tro cyntaf bydd dros 10,000 o achosion cyfryngu'n cael eu gweinyddu drwy un swyddfa, gyda chyfres gyson o ganllawiau a phrosesau. Bydd yn sicrhau ein bod yn fwy hyblyg wrth ymateb i anghenion defnyddwyr ac yn gallu helpu i ddarparu ymyriadau cyfryngu'n gynt, gan wella'r gwasanaeth a lleihau costau i ddefnyddwyr.

Bydd y broses o gofrestru pob apêl Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant yn gwbl ganolog, gan ddarparu un pwynt cyswllt yng Nghymru a Lloegr ac un pwynt yn yr Alban. Bydd defnyddwyr yna'n gallu ffeilio eu hapêl yn uniongyrchol drwy Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn hytrach na thrwy'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Byddwn yn parhau i wella perfformiad ar draws y gwahanol agweddau ar fusnes canolog, yn defnyddio dulliau gwelliant parhaus i fagu hyder yn y gwasanaeth drwy wella ansawdd y gwasanaeth i ddefnyddwyr. Byddwn yn datblygu dulliau ymgysylltu ymhellach fel y gallwn weithio â defnyddwyr i ddatrys problemau a rheoli'r galw a disgwyliadau'n rhagweithiol.

Rydym yn trafod cyfleoedd newydd i ganoli'r cyswllt ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2014-15, ac i ddarparu profiad cyswllt cyson, prydlon ac o safon uchel i ddefnyddwyr. Byddwn yn gyrru mwy o welliannau i'r systemau o'r dechrau i'r diwedd, gan weithio â phartneriaid a rhanddeiliaid y farnwriaeth i leihau oedi ac ychwanegu gwerth i ddefnyddwyr.

### 2.2.4 Arbedion cost ac effeithlonrwydd

#### 2.2.4.1 Adennill costau llawn

Ym mis Rhagfyr 2013 cyhoeddodd y llywodraeth ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio ffioedd y llysoedd sifil. Bu'n bolisi gan y llywodraeth bennu ffioedd ar sail adennill costau llawn; sef defnyddio'r incwm o ffioedd i adennill cost lawn y system llysoedd, llai cost am ddileu ffioedd. Mae dileu ffioedd yn sicrhau mynediad at gyfiawnder i rai na fedrant fforddio talu. Hyd yn hyn, mae'r llysoedd sifil wedi bod yn gweithredu ar lai nag adennill costau llawn. Mae'r llywodraeth wedi ymgynghori ar gyfres o ffioedd newydd sy'n adlewyrchu'r gost o ddarparu gwasanaethau a, gyda rhai mathau o achosion, byddai disgwyl i ddefnyddwyr y llysoedd gyfrannu mwy na'r gost. Byddai dileu ffioedd yn parhau i fod ar gael i rai sy'n gymwys, fel na wrthodir mynediad at gyfiawnder i neb.

Bwriad y llywodraeth yw cyflwyno Ffioedd Estynedig, na fyddai'n gyfyngedig i'r gost o ddarparu gwasanaeth mewn mathau penodol o achosion, oherwydd barn y llywodraeth yw y byddai'r parti sy'n dwyn yr achos mewn sefyllfa i dalu ffi sy'n adlewyrchu gwerth yr achos iddynt hwy.

Disgwylir i'r llywodraeth ymateb i'r ymgynghoriad ar ddechrau 2014. Mae cynlluniau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM am 2014-15 yn seiliedig ar dybio y bydd y rhan fwyaf o gynigion ffioedd y llywodraeth yn cael eu mabwysiadu gan y Senedd, a heb effeithio llawer ar nifer yr achosion a ddaw gerbron

y llys. Disgwylir y bydd y gwaith o reoli'r broses o drosglwyddo i system ffioedd newydd, gan gynnwys hyfforddi staff a diweddaru systemau a phrosesau, yn parhau yn 2014-15.

#### 2.2.4.2 Prosiect Gwasanaethau Cydymffurfio a Gorfodi (CESP)

Rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o gasglu mwy o ddirwyon troseddol a gwella cydymffurfio a gorfodi. Ym mis Gorffennaf 2013 gwnaethom gychwyn ar broses gaffael i adnabod darparwr allanol i ddarparu'r gwasanaethau hyn ar ran y Gwasanaeth. Erbyn haf 2014, gobeithiwn fod wedi adnabod y bidiwr a ffafrir i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Bydd y gwasanaeth yn cynnwys yr holl waith cydymffurfio a gorfodi yng nghyswllt dirwyon troseddol. Daw hyn â'r buddsoddiad angenrheidiol a'r dechnoleg fydd ei hangen arnom i gyflawni ein dyheadau am wasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol yn y dyfodol. Disgwylir y bydd y prosiect yn creu manteision o ganlyniad i fwy o refeniw oherwydd gorfodi mwy effeithiol, llai o gostau adnoddau drwy weinyddu a gorfodi'n fwy effeithlon, a mwy o hyder yn y system cyfiawnder troseddol drwy gasglu dirwyon ariannol yn fwy llwyddiannus.

## 2.3 Gweithio â'n partneriaid yn y system gyfiawnder i wella perfformiad

### 2.3.1 Tribiwnlysoedd

Byddwn yn parhau i weithio â'n cydweithwyr yn y meysydd hyn yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder, yng Ngweithrediaethau'r Alban a Gogledd Iwerddon, yn y Cynulliad ac yn y farnwriaeth, i sicrhau y darperir tribiwnlysoedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM effeithiol yn y gweinyddiaethau datganoledig

Gan adeiladu ar lwyddiant gallu cyflwyno apeliadau'n erbyn penderfyniadau'r DWP yn uniongyrchol i'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2013-14, bydd y Tribiwnlys SSCS yn parhau i weithio i ymateb i effeithiau gweithredol rhaglen diwygio lles y llywodraeth. Byddwn yn gweithio'n agos â'r DWP i ddeall maint a math y llwyth gwaith apeliadau, gan sicrhau bod gan y tribiwnlys ddigon o gapasiti i barhau i ysgafnu'r llwyth achosion a lleihau amseroedd aros i apelyddion.

Gan ddysgu gwersi o'r diwygiadau uchod, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithio â Chyllid a Thollau EM (HMRC) fel y gellir ffeilio apeliadau'n erbyn penderfyniadau hawliadau credyd treth yn uniongyrchol i'r Tribiwnlys SSCS, o fis Ebrill 2014 ymlaen.

Ar gyfer hyn bydd angen i hawlwyr fynd drwy broses ailystyried orfodol gan wneuthurwyr penderfyniadau'r HMRC cyn gallu apelio'n uniongyrchol i'r tribiwnlys lle pery'r anghydfod.

Bydd y Tribiwnlys SSCS yn gweithio'n agos â'r DWP i ymateb i effeithiau gweithredol rhaglenni diwygio lles y llywodraeth, gan gynnwys y newidiadau gweithdrefn a gyflwynwyd gan y rhaglen Mynediad Mewnfudwyr at Fudd-daliadau a chyflwyniad cenedlaethol ehangach y Credyd Cynhwysol.

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithio'n agos â'r DWP i gefnogi ymdrechion i wella ansawdd y penderfyniadau gwreiddiol. Gan adeiladu ar gyflwyno hysbysiad penderfynu diwygiedig yn 2012 sy'n rhoi adborth ar resymau dros wrthdroi penderfyniadau gan y DWP, byddwn yn gweithio â'r farnwriaeth yn 2014-15 i

ehangu ar nifer y rhesymau diannod fel bod y ddwy ochr mewn apêl yn deall y rhesymau dros benderfyniad tribiwnlys yn well. Wrth i'r DWP a rhanddeiliaid eraill ddysgu o'r adborth hwn, bydd yn helpu i sicrhau mai ond apeliadau priodol fydd yn cyrraedd y tribiwnlys.

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn parhau i weithio â'r Swyddfa Gartref i wella'r system apêl o'r dechrau i'r diwedd er mwyn datrys apeliadau'n gynt. Mae hyn yn cynnwys defnyddio mwy ar ddulliau digidol a dogfennau electronig i gyflymu'r broses a helpu'r Swyddfa Gartref i wella eu penderfyniadau ac fel y gall adolygu tystiolaeth newydd gan apelyddion yn effeithiol a chynt yn y broses.

Yn 2013 aeth cyd-grŵp o aelodau o'r farnwriaeth tribiwnlysoedd a staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ati i gyflawni adolygiad sylfaenol o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Mewnfudo a Lloches) gan wneud nifer mawr o argymhellion ar gyfer amryw o feysydd. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithio â'r Swyddfa Gartref, y farnwriaeth a rhanddeiliaid ehangach i dreialu argymhellion allweddol yr adolygiad, gan gynnwys sut y rhestrir apeliadau ac y rheolir achosion; sut y mae canlyniad apêl yn cael ei benderfynu a'i gyfathrebu; a sut y gallai'r partïon mewn achos gyfrannu'n fwy effeithiol at ddatrys yr apêl. Disgwylir i'r treialon gychwyn yn y gwanwyn 2014.

Byddwn yn parhau i integreiddio awdurdodaethau newydd o fewn y strwythur tribiwnlys dwy haen ac i weithio ag adrannau eraill y llywodraeth i sicrhau bod prosesau apêl yn gymesur â'r materion dan sylw. Byddwn hefyd yn ceisio hwyluso gweinyddu awdurdodaethau newydd o fewn yr ystâd bresennol ac yn defnyddio'r dull canolfan fusnes.

Byddwn yn gweithio â'r Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol i weithredu darpariaethau terfynol Deddf Cartrefi Symudol 2013 yn y Siambr Eiddo.

Byddwn yn gweithio â Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth i weithredu diwygiadau i'r Archwiliad Cyflog Cyfartal o fewn awdurdodaeth y Tribiwnlys Cyflogaeth; a hefyd ag ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid i sicrhau cydymffurfio a monitro ôl-weithredu effeithiol.

Byddwn yn gweithio â HMRC i gynyddu capasiti'r Siambr Dreth i brosesu a phenderfynu lefelau sylweddol uwch o apeliadau yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch-Dribiwnlys ar ôl i'r llywodraeth gyhoeddi y bydd angen i drethdalwyr a ddefnyddiodd gynlluniau osgoi treth dalu'n gynt, unwaith y bydd Bil Cyllid 2014 yn cael Cydsyniad Brenhinol.

### 2.3.2 Sifil a theulu

Yn y llysoedd sifil byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r BIS a'r Gwasanaeth Ansolfedd i gynllunio i ddiwygio'r broses lle mae dyledwyr yn cyflwyno deiseb methdalu yn 2015-16, ac i gefnogi eu cynlluniau i wneud ffurflenni a phrosesau'r Gwasanaeth Ansolfedd yn fwy hygyrch i'r defnyddiwr. Rydym hefyd yn cefnogi'r Swyddfa Eiddo Deallusol i sefydlu'r Llys Patentau Unedig.

Byddwn yn parhau i weithio â'r Swyddfa Gartref ar gynigion i newid y pwerau ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wrthi'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd, ac i hwyluso trosglwyddo gwaharddebau

cysylltiedig â gangiau ieuenctid o'r Llys Sirol i'r Llys Ieuenctid.

Byddwn yn parhau i chwarae rôl allweddol yn y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol traws-lywodraeth sydd wedi'i gadeirio'n annibynnol. Rydym yn cadeirio Is-grŵp Gwella Perfformiad Cenedlaethol y Bwrdd ac yn aelodau gweithredol ar bob un o'r 46 Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol. Yn y rhain i gyd, rydym yn gweithio'n agos â'n partneriaid darparu, gan gynnwys Cafcass, CAFCASS (Cymru), cyrff sy'n cynrychioli awdurdodau lleol, yr Adrannau Addysg ac Iechyd, yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol a'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r farnwriaeth yn mynychu fel sylwedyddion ar lefel genedlaethol a lleol.

Byddwn hefyd yn gweithio'n agosach â Cafcass i nodi unrhyw effeithlonrwydd traws-system ac i weld pa sgôp sydd i gael prosesau a thechnoleg fwy cydgysylltiedig er mwyn gweithio'n fwy effeithlon ac er mantais i'n defnyddwyr.

### 2.3.3 Trosedd

Sefydlwyd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn Chwefror 2013, wedi'i gadeirio gan Damian Green AS, y Gweinidog Gwladol dros Blismona, Cyfiawnder Troseddol a Dioddefwyr. Mae'n dod â gweinidogion a phrif swyddogion o bob rhan o'r CJS at ei gilydd, yn ogystal â'r farnwriaeth (sy'n mynychu fel sylwedyddion). Mae'n cynghori ar strategaeth Cyfiawnder Troseddol er mwyn gwella perfformiad ar draws y CJS. Mae Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn aelod o'r Bwrdd.

Rydym yn gweithio â'n partneriaid ar draws y CJS i ddatblygu rhaglen newid busnes TG fel y gallwn i gyd fod yn fwy effeithlon ac effeithiol a darparu gwasanaeth gwell i ddioddefwyr, tystion a diffynyddion. Bydd y gwaith hwn yn chwyldroi sut yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd ac, felly, mae'n hollbwysig bod Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), yr heddlu, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol (NOMS), y gymuned amddiffyn a'r farnwriaeth yn cyfrannu ac yn rhan o'r dylunio a'r darparu. Bydd cymal cyntaf y prosiect yn darparu erbyn 2016, ar ôl hynny gobeithiwn ystyried opsiynau i'w ehangu i'r llysoedd sifil a theulu ac i'r tribiwnlysoedd.

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn parhau i weithio â'r Prif Ynad, yr ynadaeth, y CPS, yr heddlu a gyda chynrychiolwyr amddiffyn i gyflwyno gwelliannau mewn sawl maes yng nghyswllt cyfiawnder diannod. Yn 2014-15 byddwn yn canolbwyntio ar wneud gwrandawiadau cyntaf yn fwy effeithiol, gyda'r nod o sicrhau, lle bo hynny'n briodol, bod diffynnydd mewn sefyllfa i bledio'n euog yn y gwrandawiad cyntaf hwnnw, gyda fframwaith clir i hwyluso dod ag achosion i dreial lle nad yw diffynnydd yn pledio'n euog.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cynnal cyfarfodydd deufisol y Cyd-Fwrdd Gwelliannau Cenedlaethol (JNIB) gyda'r CPS er mwyn gweithio ar y cyd, ond yn annibynnol, i wella perfformiad y ddau gorff. Mae'r JNIB yn fforwm cenedlaethol i rannu arferion da a nodi cyfleoedd i wella perfformiad a datblygu atebion gyda chydweithwyr rheng flaen. Ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio ar nodi enghreifftiau o ymarfer gorau a sialensau ar draws y busnes i greu sail ar gyfer ei waith yn y dyfodol o weithredu argymhellion

Strategaeth a Chynllun Gweithredu'r CJS.

Byddwn yn parhau i weithio i leihau'r ddyled sydd ar bobl o hyd i'r llywodraeth ac i unigolion drwy gasglu mwy o ddirwyon. Rydym yn gweithio â HMRC i ddatblygu prosesau o rannu gwybodaeth rhyngom fel y gellir gorfodi dirwyon troseddol yn fwy effeithiol. Mae hyn yn dilyn gweithredu deddfwriaeth yn Neddf Troseddu a Llysoedd 2013.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithio'n agos â Rhaglen Newid Troseddu yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA). Nod y Rhaglen yw 'prosesu'r holl geisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol, a biliau, mewn amgylchedd di-bapur ac electronig erbyn Ebrill 2015'.

Fel rhan o'r rhaglen, bydd y prosiect 'Trosglwyddo Grant' yn trosglwyddo a chanoli'r gwaith o brosesu ceisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i'r LAA, gan gysoni cyflawni prosesau ag atebolrwydd y gronfa cymorth cyfreithiol er mwyn gwella effeithlonrwydd ac ansawdd.

Rydym hefyd yn cefnogi'r rhaglen newid troseddu ehangach, drwy weithio'n agos â'r LAA i greu cysylltiad rhwng systemau rheoli achosion i hwyluso 'Trosglwyddo Grant' a sicrhau bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cadw gwybodaeth hanfodol am statws cymorth cyfreithiol mewn achosion troseddol unigol.

Rydym yn gweithio â'r CPS a'r heddlu i weld sut y gallwn wella'r gwaith o gofnodi data am ddioddefwyr unigol troseddau casineb. Drwy ddeall natur a pha mor eang a difrifol yw harasio ar sail anabledd, bydd yn bosibl monitro perfformiad y rhai sy'n gyfrifol am ddelio â'r broblem yn well.

Bydd Polisi'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio'n agos â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac asiantaethau eraill i nodi bylchau yn y broses 'o'r dechrau i'r diwedd' o gyhuddo i ddedfrydu. Bydd yn golygu y gellir fflagio'r achosion hyn yn effeithiol a chyson, i sicrhau bod pob dioddefwr troseddau casineb yn derbyn cymorth priodol.

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn parhau i weithio â'n partneriaid yn y CJS i gefnogi dioddefwyr a thystion pan fyddant yn dod i'r llys. Ein nod yw y bydd dioddefwyr a thystion:

- yn ddiogel a chyffyrddus yn y llys
- yn derbyn gwybodaeth drylwyr am eu rôl a beth i'w ddisgwyl wrth ddod i'r llys
- y byddwn yn gwerthfawrogi eu hamser
- y byddwn yn gwerthfawrogi'r rôl hollbwysig y maent yn ei chwarae.

## 2.4 Newidiadau i reolau gweithdrefn a deddfwriaethol

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ymrwymedig i gefnogi diwygio deddfwriaeth a diweddaru rheolau gweithdrefn er mwyn gwneud y broses gyfreithiol yn haws a mwy agored. Mae hyn yn cyfrannu at foderneiddio'r system gyfreithiol, gan helpu i wneud y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn fwy hwylus a mwy ymatebol i anghenion y defnyddiwr. Mae'r newidiadau canlynol i ddeddfwriaeth a rheolau gweithdrefn ar y gweill ar gyfer 2014-15.

### 2.4.1 Diwygio tribiwnlysoedd

Byddwn yn gweithio â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Swyddfa Gartref i roi newidiadau gweithredol a deddfwriaethol ar waith yn sgîl y Bil Mewnfudo y disgwylir iddo gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2014. Bydd y Gwasanaeth yn cefnogi diwygio'r adolygiad barnwrol drwy wreiddio trosglwyddo adolygiad barnwrol i'r Uwch Dribiwnlys, a ddigwyddodd ym mis Tachwedd 2013, a chefnogi diwygiadau'r llywodraeth o'r adolygiad barnwrol.

Ar y cyd â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, bydd y Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd yn cyflwyno rheolau cytûn yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Mewnfudo a Lloches) ar ôl ymgynghori yn 2013-14.

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn mynd ati i weithredu newidiadau i'r Broses o Wneud Cais i Gydnabod Rhyw yn sgîl cyflwyno Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013.

Byddwn yn gweithio â'r Adran Addysg ac eraill i gyflwyno newidiadau i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig a gododd o'r Bil Plant a Theuluoedd – bydd hyn yn cynnwys cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth o gyfryngu cyn y cam apêl, treialu cyflwyno hawl plant i apelio ac ymestyn hawliau apêl i asiantaethau gwarchod plant.

### 2.4.2 Un Llys Sifil ac Un Llys Teulu

Bydd lansio'r Un Llys Sirol yn rhoi mwy o gyfle i'r Gwasanaeth ganoli prosesau sifil, gan felly leihau costau a sicrhau y gallwn ganolbwyntio ein hadnoddau gwerthfawr ar gefnogi'r farnwriaeth i redeg gwrandawiadau llys. Yn yr un modd, bydd cael Un Llys Teulu yn symleiddio a gwella'r system llysoedd teulu'n sylweddol i ddefnyddwyr. Bydd yn cyflwyno prosesau rheoli achosion symlach a gwell ac yn cryfhau arweinyddiaeth farnwrol ymhellach. Bydd y llysoedd newydd yn cael eu lansio ym mis Ebrill ar ôl cychwyn darpariaethau Deddf Troseddu a Llysoedd 2013. Dros y flwyddyn byddwn yn achub ar bob cyfle i ddiwygio, gan gynnwys dirprwyo'r cyfrifoldeb am ddelio ag achosion ysgariad symlach nas ymleddir i staff wedi eu hyfforddi ac wedi cymhwyso'n gyfreithiol fel bo'r farnwriaeth yn gallu canolbwyntio ar feysydd gwaith mwy cymhleth. Bydd hyn yn arwain at system gyfiawnder well.

### 2.4.3 Adolygiad Cyfiawnder Teuluol

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cadw ffocws clir ar weithio â'r farnwriaeth i barhau i wella perfformiad y llysoedd teulu a gwreiddio'r diwygiadau a wnaed eisoes mewn ymateb i'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol. Yn dilyn cyflwyno'r Un Llys Teulu (uchod), byddwn yn parhau i weithio'n agos â Llywydd yr Adran Deulu i gyflwyno gwelliannau i systemau a phrosesau'r llys teulu ac i gefnogi'r Llywydd â'i raglen barhaus o foderneiddio a newid diwylliant.

Mae hyn yn cynnwys cadw ffocws ar ddiwygio prosesau cyfraith gyhoeddus a gweithio â'r farnwriaeth i weithredu'r Rhaglen Trefniadau Plant newydd ar gyfer cyfraith breifat. Mae prydlondeb achosion gofal a goruchwyliaeth yn 2013 wedi gwella'n arw (gan lwyddo i leihau'r amser parhad cyfartalog o 12 wythnos rhwng Medi 2012 a Medi 2013 – o 48 i 36 wythnos), ac rydym yn llawn ddisgwyl i'r gwelliant hwn barhau yn 2014-15.

### 2.4.4 Diwygio cyfiawnder sifil

Byddwn yn gweithredu'r newidiadau a gododd o ymgynghori ar drawsnewid gweithredu gan feiliïaid, ac yn achub ar bob cyfle i greu arbedion ac effeithlonrwydd lle bynnag y gallwn. Byddwn hefyd yn ystyried y posibilrwydd o ganoli'r gwaith o weinyddu gorchmynion arwystlo a gorchmynion atafaelu enillion.

Byddwn yn gweithredu tri argymhelliad arall o'r ymgynghoriad ar Ddatrys Anghydfodau yn y Llys Sirol y cyhoeddodd y llywodraeth ei hymateb iddo yn Chwefror 2012. Yn benodol: cynyddu gwerth hawliadau ecwiti y gellir eu gwrando yn y llys sirol; codi'r trothwy ariannol ar gyfer cychwyn hawliadau anaf di-bersonol yn yr Uchel Lys; a rhoi awdurdod i'r Llys Sirol wneud gorchmynion rhewi.

### 2.4.5 Diwygio cyfiawnder troseddol

Byddwn yn gweithio â'r farnwriaeth ac adrannau arweiniol ar raglen ddeddfwriaeth gan sicrhau bod ei heffaith a'i goblygiadau i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cael eu hystyried. Byddwn yn gweithio ag asiantaethau a rhanddeiliaid y CJS i gynllunio i weithredu unrhyw raglenni newydd yn dilyn ymlaen o'r ddeddfwriaeth. Byddwn yn rhoi canllawiau ac arferion gorau i staff y llysoedd troseddol ar unrhyw newidiadau i brosesau gweithredol ac yn parhau i gefnogi'r llysoedd a defnyddwyr eraill i ddatblygu a gwella eu busnes yn barhaus yn dilyn eu gweithrediad. Mae'r paragraffau canlynol yn nodi rhai o'r pethau penodol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn 2014-15.

- Byddwn yn parhau i gefnogi'r agenda ehangach ar ddiwygio'r llysoedd a chyfiawnder troseddol drwy daith a gweithrediad y Mesur Llysoedd a Dedfrydu traws-groesi fydd wedi cael Cydsyniad Brenhinol erbyn diwedd 2014. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys y canlynol:

- Bydd troseddau diannod, mewn rhai amgylchiadau, yn cael eu barnu a'u dedfrydu gan un ynad, wedi'i gefnogi neu ei chefnogi gan gynghorwr cyfreithiol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy ddiwygio adran 12 Deddf Llysoedd Ynadon 1980 (gweithdrefn pledio'n euog drwy'r post). Mae'r troseddau'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu, i droseddau moduro diannod fel goryrru, a throseddau di-foduro diannod fel osgoi talu'r drwydded deledu a'r drwydded treth car.

- Dileu'r gofynion gweithdrefnol arferol bod manylion achos yn cael eu darllen yn uchel gan erlynydd mewn achosion sy'n dilyn y broses hon.

- Creu eithriad statudol i'r rheidrwydd i eistedd mewn llys agored ar gyfer yr achosion rhagnodedig hyn, gan gynnwys mwy o hyblygrwydd ynghylch dyddiad ac amser i wrando'r achosion hyn.

- Creu proses gais ddiwygiedig, yn ogystal â'r system bresennol, sy'n rhoi dyddiad i'r diffynnydd erbyn pryd y dylai ymateb i'r llys yn hytrach na dyddiad gwrandawiad penodol.

Gall cyrff cyhoeddus (ee, yr heddlu, y CPS a HMRC) a chyrff heb fod yn gyhoeddus fel y Sefydliad Trwyddedu Teledu a chwmnïau rheilffyrdd gael eu hawdurdodi i erlyn materion troseddol drwy'r weithdrefn newydd hon.

Mae'r weithdrefn newydd yn golygu y gall un ynad wneud penderfyniad, wedi'i gefnogi gan gynghorwr cyfreithiol, a bod modd gwneud penderfyniadau yn rhywle ar ystâd y Gwasanaeth.

Bydd gan ynadon unigol y pŵer i roi dirwy – yr un fath â mainc lawn (ynghyd â gorchmynion atodol eraill angenrheidiol, fel ardystio trwyddedau) - ond nid i garcharu.

O ganlyniad, addasu'r broses Datganiadau Statudol ac ailagor achosion.

Daeth Deddf Troseddu a Llysoedd 2013 i rym ym mis Rhagfyr 2013 gan nodi'n glir y pŵer presennol oedd gan y llys i ohirio dedfrydu am hyd at chwe mis ar ôl dyfarnu rhywun yn euog, i roi amser i'r troseddwr gyflawni gweithgareddau Cyfiawnder Adferol (RJ). Mewn cydweithrediad â phartneriaid cyfiawnder troseddol a'r sector gwirfoddol byddwn yn cefnogi rhaglenni Pathfinder ar gyfer RJ mewn deg Llys y Goron. Ar ôl ei werthuso ar ddiwedd 2014, bydd model RJ ar gael i bob llys ei fabwysiadu erbyn diwedd 2014-15.

### 2.4.6 Cyfiawnder ieuenctid


Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithio â NOMS a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i ddefnyddio technoleg fideo'n well i rai dan 17 oed sydd yn y ddalfa, fel nad oes angen teithio gymaint i ac o'r llys ac fel bod mwy o wasanaethau cymorth ar gael i rai yn y carchar. Byddwn yn gweithio â Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOI) Feltham a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i ddatblygu model technoleg fideo erbyn y gwanwyn 2014, gan anelu iddo fod yn ei le mewn Sefydliadau YOI eraill cyn diwedd y flwyddyn.

Byddwn yn gweithio, gydag arweiniad y farnwriaeth, i orffen peilot Adran 28 Deddf Tystiolaeth Droseddol Cyfiawnder Ieuenctid 1999 fel bod modd recordio holi ac ailholi ymlaen llaw mewn achosion sy'n cynnwys tystion bregus; bydd hyn yn ychwanegol at y ddarpariaeth bresennol bod recordiad fideo'n dderbyniol fel prif dystiolaeth. Bydd tystion yn gymwys ar gyfer y peilot Adran 28 os ydynt:-

- O dan 16 oed pan gynhelir y gwrandawiad mesurau arbennig; neu
- Yn dioddef o anhwylder meddwl fel y'i diffinnir gan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983; neu
- Gydag amhariad sylweddol ar eu deallusrwydd a'u hymddygiad cymdeithasol; neu
- Gydag anabledd neu anhwylder corfforol, gan effeithio mae'n debyg ar ansawdd eu tystiolaeth o ganlyniad.

Mae'r peilot i'w gynnal yn Llys y Goron Leeds, Lerpwl a Kingston-upon-Thames. Ar ôl eu cwblhau, byddwn yn gweithio â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a phartneriaid cyfiawnder troseddol i werthuso gweithrediad y peilot fel bod gweinidogion yn gallu penderfynu os a sut y dylid cyflwyno'r ddarpariaeth hon yn llawn.

## Map Cynllun Busnes Lefel Uchel



www.justice.gov.uk